Uned Herio Cydraddoldeb – Gwybodaeth Groeso

Diweddarwyd diwethaf: 5 Mawrth 2008

Cyfeiriad a manylion cyswllt

Uned Herio Cydraddoldeb (ECU)
7th floor, Queens House
55/56 Lincoln's Inn Fields
London WC2A 3LJ
Rhif ffôn: 020 7438 1010
Ffacs: 020 7438 1011

Ymholiadau e-bost cyffredinol: info@ecu.ac.uk

Map

ECU Queens House Entrance & Car parking
Uned Herio Cydraddoldeb Mynediad & Maes Parcio Queens House

Os hoffech chi edrych ar fap mwy Find us on Google Maps UK (dolen allanol) neu Find us on Street Map (dolen allanol)

Cyrraedd gyda thrafnidiaeth gyhoeddus

Mae **Gorsaf Danddaearol Holborn** (llinell Piccadilly a Central) o fewn taith gerdded fer.

Os ydych chi'n dod o'r ochr ogleddol, mae'r orsaf bws agosaf o flaen **Gorsaf Danddaearol Holborn**.

Os ydych chi'n dod o'r ochr ddeheuol, mae'r orsaf bws agosaf ar gylchfan **Aldwych** ar waelod y Kingsway.

Gallai gwefan Transport for London website ddarparu gwybodaeth am fysys, y tiwb a ffyrdd eraill o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn Llundain. Fel arall, cysylltwch â London Travel Information ar 020 7222 1234.

Cyrraedd gyda char a pharcio yn Queens House

Mae Queens House ar stryd un ffordd, a dim ond drwy'r ochr ddeheuol y gellir ei gyrraedd.

Mae gan yr Uned Herio Cydraddoldeb un man parcio dynodedig ym maes parcio Queens House, sydd yn union i'r chwith o brif fynedfa Queens House yn Lincoln's Inn Fields. Rhif 5 yw man parcio dynodedig yr Uned Herio Cydraddoldeb.

Os fyddwch chi angen defnyddio'r man parcio yn ystod eich ymweliad, gofynnwch i ni ei gadw ar eich cyfer chi, a gadewch i ni wybod faint o'r gloch y byddwch chi'n cyrraedd. Dim ond yn ystod oriau agor derbynfa Queens House y gellir defnyddio'r maes parcio, sef o 8.30yb hyd at 6yh ar ddyddiau'r wythnos.

Mae'r maes parcio'n cael ei ddiogelu gan gadwyn clo, felly pan rydych chi'n cyrraedd Queens House, mae angen i chi dynnu mewn ar ochr y ffordd a mynd i mewn i dderbynfa Queens House neu ei ffonio, i roi gwybod iddyn nhw eich bod chi wedi cyrraedd. Rhif ffôn derbynfa Queens House yw 020 7405 3903. Fe fydd aelod o staff Queens House yn dod i agor y gadwyn i chi er mwyn i chi allu gyrru i mewn. Fe wnawn ni roi gwybod o flaenllaw i staff y dderbynfa y byddwch chi'n cyrraedd.

Parcio car ar y stryd

Mae mannau parcio gyda mesurydd ar gael yn Lincoln's Inn Fields.

Dim ond ar gyfer trigolion Bwrdeistref Camden yn Llundain sydd â 'chardiau parcio gwyrdd' yn unig, y mae'r mannau sydd wedi cael eu cadw ar gyfer gyrwyr anabl.

Parcio beic a beic modur ar y stryd

Mae mannau parcio dynodedig ar gael i feiciau modur ,gyferbyn â'r fynedfa i Queens House. Mae raciau beic ar gael ar gornel gogledd-orllewinol Lincoln's Inn Fields.

Mynediad i Queens House a'r Uned Herio Cydraddoldeb

Mae mynediad lefel ar gael i Queens House drwy'r fynedfa yn Lincoln's Inn Fields. Tu mewn i'r adeilad, mae mynediad lefel drwy gydol y llawr gwaelod, a lifftiau hygyrch a fydd yn mynd â chi i swyddfeydd yr Uned Herio Cydraddoldeb ar lawr 7. Pan rydych chi'n gadael y lifft ar lawr 7, trowch i'r dde a cherddwch yn syth ymlaen. Fe fydd hyn yn mynd â chi at ddrws ffrynt swyddfa'r Uned Herio Cydraddoldeb.

Os hoffech chi i aelod o staff yr Uned Herio Cydraddoldeb i ddod i gwrdd â chi ar y llawr gwaelod, gadewch i ni wybod.

Toiledau tu mewn i Queens House

Mae toiledau'r menywod wedi eu lleoli ar loriau 1, 3, 5 a 6
Mae'r **toiled hygyrch i fenywod** ar lawr 3
Y côd pin i gael mynediad i holl doiledau'r menywod yw 213.

Mae toiledau'r dynion wedi eu lleoli ar loriau 4 a 7
Mae'r **toiled hygyrch i ddynion** ar lawr 4
Y côd pin i gael mynediad i holl doiledau'r dynion yw 341.

Gweithdrefnau Gwagio Brys

Mae'r Uned Herio Cydraddoldeb wedi ei leoli ar seithfed llawr (llawr top) Queens House. Mewn achos o dân neu argyfwng arall, y prif lwybr gwagio yw mynd i lawr saith cyfres o risiau gan ddefnyddio dihangfa dân allanol, yna mynd allan ar Lincoln's Inn Fields.

Os nad yw'r llwybr gwagio yma'n hygyrch i chi, neu os ydych chi'n meddwl yr hoffech chi gael cymorth i adael yr adeilad drwy ddefnyddio'r llwybr yma, cysylltwch â'r Uned Herio Cydraddoldeb. Gallwn ni drafod trefniadau amgen ac/neu gymorth gyda chi, ac os yn addas, gallwn ni lunio cynllun gwagio personol mewn argyfwng gyda chi.